

# Methiannau mewn rheolaeth ariannol a threfniadau llywodraethu – Cyngor Tref Rhydaman

Blwyddyn archwilio: 2016-17 i 2020-21

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3695A2023

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân sydd â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod. Prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

# Cynnwys

Gan weithredu dan drefniadau dirprwyedig ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 22 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, i dynnu sylw'r cyhoedd at ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth ariannol a threfniadau llywodraethu yng Nghyngor Tref Rhydaman sydd wedi golygu ei fod wedi methu â rhoi cyfrif yn briodol am bron i £800,000 o arian a godwyd gan drethdalwyr trwy'r dreth gyngor.

## Adroddiad cryno

|                              |   |
|------------------------------|---|
| Cyflwyniad                   | 4 |
| Canfyddiadau allweddol       | 6 |
| Argymhellion a'r camau nesaf | 8 |

## Adroddiad manwl

|                                                                                                                    |    |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----|
| Mae'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'r gofynion statudol ar gyfer cymeradwyo'i gyfrifon blynyddol ers 2016-17 | 10 |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----|

|                                                                                                                                                                                                                      |    |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----|
| Mae cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2017-18 wedi cael eu diwygio cyn eu cyflwyno i gael eu harchwilio ac felly mae'n aneglur a gafodd y newidiadau eu gwneud cyn ynteu ar ôl i'r Cadeirydd lofnodi'r ffurflenni blynyddol | 13 |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----|

|                                                                                                                                                                                                                |    |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----|
| Mae diffygion sylweddol yng nghofnodion cyfrifyddu'r Cyngor yn golygu nad wyf yn gallu dod i gasgliad pa un a yw'r cyfrifon ar gyfer 2016-17 a 2017-18 yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r Cyngor yn briodol | 14 |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----|

|                                                                                                              |    |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----|
| Er bod gwefan gan y Cyngor, nid yw'n cyhoeddi'r holl ddogfennau y mae'n ofynnol iddo'u cyhoeddi'n electronig | 18 |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----|

## Atodiadau

|                                              |    |
|----------------------------------------------|----|
| Atodiad 1 – Datganiad Llywodraethu Blynyddol | 20 |
|----------------------------------------------|----|

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

- 1 Dan adran 22 Deddf 2004, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru ystyried a ddylai, er budd y cyhoedd, gyhoeddi adroddiad ar unrhyw fater sy'n dod i'w sylw yn ystod yr archwiliad er mwyn iddo gael ei ystyried gan Gyngor Tref Rhydaman (y Cyngor) neu gael ei ddwyn i sylw'r cyhoedd.
- 2 Yng ngoleuni'r methiannau difrifol mewn trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol gan y Cyngor ei hun a'r diffyg atebolrwydd am bron i £800,000 a gasglwyd gan drethdalwyr lleol rhwng 2016-17 a 2020-21, rwyf wedi penderfynu cyhoeddi'r adroddiad hwn er budd y cyhoedd.
- 3 Wrth wneud y penderfyniad hwn, rwyf wedi ystyried y ffaith bod y Cyngor yn wreiddiol wedi methu ag ymateb i ddogfen a oedd yn nodi fy nghanfyddiadau a chasgliadau dros dro. Rwyf hefyd wedi ystyried y diffyg gweithredu gan y Cyngor mewn ymateb i ddiffygion difrifol a ganfuwyd gan ei archwilydd mewnol yn ystod 2017-18. Yn fy marn i, mae hyn yn dynodi diffyg ymwybyddiaeth o'i gyfrifoldebau am reoli arian cyhoeddus.
- 4 Felly, rwy'n credu ei bod hi'n bwysig bod gan y cyhoedd ymwybyddiaeth lawn a phriodol o'r digwyddiadau sy'n ymwneud â'r Cyngor. Ar ben hynny, er bod fy nghanfyddiadau archwilio'n benodol i'r Cyngor hwn, mae gwersi pwysig i'w dysgu nid dim ond gan y Cyngor, ond gan yr holl gynghorau cymuned yng Nghymru.

## Cyngor Tref Rhydaman

- 5 Mae Cyngor Tref Rhydaman (y Cyngor) yn gwasanaethu tref a chymuned Rhydaman yn Sir Gâr. Mae gan y Cyngor bymtheg o gynghorwyr sy'n cynrychioli pedair ward, sef Myddynfych, Iscennen, Pantyffynon a Wernddu. Mae'n gwario oddeutu £125,000 yn flynyddol ar wasanaethau lleol gan gynnwys rhedeg a chynnal a chadw nifer o gyfleusterau gan gynnwys caeau chwarae a hamdden. Mae'r Cyngor yn ariannu'r gwasanaethau a'r cyfleusterau hyn yn bennaf trwy braesept a godir ar Gyngor Sir Gâr. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi sefyllfa ariannol y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf.

## Arddangosyn 1: Sefyllfa ariannol gryno

Er bod incwm a gwariant y Cyngor yn amrywio, mae ei gronfeydd wrth gefn wedi cynyddu'n gyson. Fe gynyddodd y Cyngor ei braesept yn sylweddol yn 2017-18, gan arwain at gynnydd o 8.7% yn y cronfeydd wrth gefn a gariwyd ymlaen ganddo ar ddiwedd y flwyddyn. Mae balans y cronfeydd wrth gefn yn fwy na'r praesept blynyddol.

|                                     | 2015-16  | 2016-17  | 2017-18  | 2018-19  | 2019-20  | 2020-21  |
|-------------------------------------|----------|----------|----------|----------|----------|----------|
| Praesept                            | £84,000  | £86,520  | £125,674 | £136,968 | £191,077 | £259,710 |
| Derbyniadau eraill                  | £41,216  | £24,271  | £26,811  | £61,818  | £55,078  | £8,945   |
| Costau staff                        | £15,794  | £15,903  | £42,552  | £25,849  | £55,479  | £38,051  |
| Gwariant arall                      | £111,446 | £62,547  | £97,970  | £184,317 | £240,958 | £163,099 |
| Balans cau'r<br>cronfeydd wrth gefn | £105,726 | £138,067 | £150,031 | £138,650 | £88,369  | £155,875 |

Ffynhonnell: Ffurflenni blynyddol Cyngor Tref Rhydaman

- 6 Mae'r Cyngor Sir yn casglu'r praesept trwy dreth gyngor ychwanegol a godir ar drigolion y Cyngor. Daw cyllid y Cyngor o bwrs y wlad ac fe gaiff ei aelodau eu hethol gan drigolion lleol. Felly mae'r Cyngor yn atebol i'r etholaeth leol.
- 7 Yn 2019-20 a 2020-21, fe gododd y Cyngor braesept o £191,077 a £259,710 yn y drefn honno. Mae hyn yn golygu, rhwng 2016-17 a 2020-21, bod y Cyngor wedi codi cyfanswm o £799,949 gan drethdalwyr lleol. Yn 2021-22, fe gododd £259,710 pellach yn ei braesept.
- 8 Mae cynghorau cymuned fel Rhydaman, oherwydd eu natur leol fach iawn, yn dibynnu fel arfer ar un swyddog allweddol, y Clerc, i reoli eu materion gweinyddol. Yn amlach na pheidio, penodir y Clerc yng nghymhwyster Swyddog Cyllid Cyfrifol hefyd. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor o ddydd i ddydd. Yn arbennig, mae hyn yn cynnwys cael a chofnodi incwm, paratoi taliadau â siec i'w llofnodi gan aelodau, cynnal y cofnodion cyfrifyddu a pharatoi'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol.
- 9 Ers 2016-17, bu'r Cyngor yn cyflogi nifer o wahanol unigolion i gyflawni rôl y Clerc, cyn gwneud penodiad parhaol ym mis Ionawr 2020. Mr Duncan Morgan (Mr Morgan) yw'r clerc cyfredol.
- 10 Er bod rôl y Clerc/Swyddog Cyllid Cyfrifol yn bodoli, yn ôl y gyfraith fel a nodir yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (Rheoliadau 2014), mae'r cyfrifoldeb am warchod arian y Cyngor, gan gynnwys sicrhau bod ganddo reolaeth ariannol effeithiol ac effeithlon, yn gorwedd gyda'r Cyngor (hynny yw, yr aelodau). Mae hyn yn cynnwys pethau fel sefydlu system rheolaeth fewnol briodol, gan gynnwys archwilio mewnol, a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol cyn eu cyflwyno i'r archwilydd allanol i gael eu harchwilio.

## Fy ngwaith archwilio

- 11 Mae fy ngwaith archwilio ar gynghorau tref a chymuned yn canolbwyntio ar ffurflen flynyddol a gwblheir gan y cynghorau ac a gyflwynir i archwilwyr sy'n gweithio ar fy rhan. Mae'r ffurflen flynyddol yn cynnwys y datganiadau cyfrifyddu blynyddol y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r cyngor eu paratoi a datganiad llywodraethu blynyddol sy'n nodi sut y mae'r cyngor wedi rheoli ei faterion ariannol.
- 12 Fe wnaeth oedi maith cyn cyflwyno'r cyfrifon i gael eu harchwilio o 2016-17 ymlaen, a methiannau mynych gan glercod dros dro blaenorol i ymateb i'r tîm archwilio, achosi i'm tîm archwilio gynnal archwiliad â ffocws mwy penodol i archwilio'r materion sylfaenol a arweiniodd at fethiant y Cyngor i gyflwyno cyfrifon i gael eu harchwilio.

## Canfyddiadau allweddol

- 13 Mae Deddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi ei gyfrifon hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn a chyflwyno'r cyfrifon i mi i'w harchwilio. Cyn bod y cyfrifon yn cael eu cyflwyno i'w harchwilio, mae Rheoliadau 2014 yn ei gwneud yn ofynnol dilyn y broses ardystio a chymeradwyo ganlynol:
  - Rhaid i'r Swyddog Cyllid Cyfrifol ardystio bod y cyfrifon yn cyflwyno'i dderbyniadau a thaliadau a'i sefyllfa ariannol yn briodol; a
  - Rhaid i'r Cyngor gymeradwyo'r cyfrifon yn un o gyfarfodydd y Cyngor.
- Rhaid cwblhau'r broses hon erbyn 30 Mehefin yn union ar ôl diwedd y flwyddyn.
- 14 Methodd y Cyngor â chydymffurfio â'r gofynion hyn ar gyfer cyfrifon 2016-17 a 2017-18 na chawsant eu cymeradwyo gan y Cyngor tan fis Medi 2018. Dygwyd y diffygion hyn i sylw'r Cyngor gan ei archwilydd mewnol ar y pryd, Auditing Solutions Ltd. Er bod y Cyngor bellach wedi darparu peth gwybodaeth ariannol, ni wnaeth y Cyngor ddarparu ei gyfrifon i gael eu harchwilio ar y ffurf a nodir gan y Rheoliadau ar gyfer 2018-19, 2019-20 a 2020-21 tan fis Ebrill 2022. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor wedi methu â rhoi cyfrif yn briodol am bron i £800,000 o arian y mae wedi'i gasglu gan drethdalwyr lleol trwy ei braeseptau blynyddol ac wedi methu ac adrodd yn briodol ar yr arian hwnnw.
- 15 Canfu fy ngwaith archwilio ddiffygion sylweddol yn systemau ariannol a rheolaeth ariannol y Cyngor. O ganlyniad i hyn, byddaf yn cyhoeddi ymwadiad mewn perthynas â'm barn archwilio ar y cyfrifon ar gyfer 2016-17 a 2017-18 am y rhesymau canlynol:
  - nid yw'r Cyngor wedi cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a chyflawn;
  - nid wyf wedi cael cofnodion allweddol mewn perthynas â defnydd y Cyngor o falansau arian parod ac felly nid wyf yn gallu dod i gasgliad pa un a yw incwm a gwariant yr adroddir arnynt yn y cyfrifon yn gyflawn.
- 16 Mae fy ngwaith archwilio ar gyfrifon 2018-19 a 2020-21 yn mynd rhagddo oherwydd absenoldebau staff yn y Cyngor. Byddaf yn cwblhau'r archwiliadau hyn

ochr yn ochr â'r archwiliad o gyfrifon 2021-22 a 2022-23. Nid yw'r Cyngor wedi darparu cyfrifon 2021-22 ar y ffurf a ragnodir gan Reoliadau 2014 eto.

- 17 Rwy'n tynnu sylw'r Cyngor at y ffaith bod tystysgrif archwilio'r Archwilydd Cyffredinol wedi cael ei chwblhau mewn modd amhriodol ar ffurflenni blynyddol 2018-19, 2019-20 a 2020-21. Mae'r ffurflenni blynyddol hyn wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor.
- 18 Tystysgrif i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei farn archwilio allanol a'i dystysgrif ei fod wedi cwblhau'r archwiliad yw hon. Fodd bynnag, mae tystysgrif yr Archwilydd Cyffredinol wedi cael ei chwblhau gan drydydd parti. Dylai'r Cyngor a'r cyhoedd ddiystyru'r tystysgrifau hyn a lofnodwyd.
- 19 Yn ogystal â chyflwyno'r cyfrifon ar gyfer blwyddyn benodol, mae'r Ffurflen Flynyddol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud datganiad ffurfiol mewn perthynas â'r trefniadau sydd ganddo ar gyfer llywodraethu a rheolaeth ariannol. Cyfeirir at hwn fel y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- 20 Rwy'n ystyried ei bod hi'n bwysig nodi mai'r safonau y mae'n ofynnol iddynt gael eu datgelu gan y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw'r safonau isaf y dylai etholwyr Cyngor Tref Rhydaman ddisgwyl eu bod yn cael eu cynnal.
- 21 Caiff haeriadau'r Cyngor yn ei Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2016-17 a 2017-18 eu crynhoi yn **Atodiad 1**. Rwy'n tynnu sylw at y ffaith bod y Cyngor, yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, wedi methu â chyrraedd y safonau hyn a'i fod wedi darparu ymatebion negyddol i bob agwedd ar lywodraethu priodol a gwmpesir gan y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- 22 Rwyf hefyd yn tynnu sylw at yr adroddiadau beirniadol a gyhoeddwyd gan archwilydd mewnol y Cyngor ar gyfer 2016-17, 2017-18 a 2018-19.
- 23 Yr hyn sy'n amlwg i mi yw ers 2016, er bod ei fethiannau a'i ddiffygion wedi cael eu dwyn i'w sylw gan yr archwilydd mewnol ac archwilwyr allanol, bod swyddogion blaenorol a phresennol y Cyngor a'i aelodau wedi methu â sicrhau ei fod wedi sefydlu safonau rheolaeth ariannol a llywodraethu priodol. Trwy fethu â mynd i'r afael yn briodol â materion a godwyd yn yr adroddiadau archwilio mewnol, nid yw aelodau'r Cyngor wedi cydnabod materion mewn perthynas â digonolrwydd eu trefniadau llywodraethu na gweithredu arnynt mewn modd digonol. Yn achos fy nghanfyddiadau archwilio allanol, i ddechrau fe wnaeth y Cyngor ddiystyru gohebiaeth a oedd yn dwyn fy nghanfyddiadau archwilio i'w sylw ym mis Medi 2021.
- 24 Mae'r canfyddiadau manwl a nodir yn yr adran nesaf o'r adroddiad hwn yn nodi'r diffygion a'r gwendidau yn nhrefniadau'r Cyngor sydd wedi bod yn amlwg i mi yn ystod yr archwiliad.

# Argymhellion a'r camau nesaf

## Argymhellion

Rwy'n gwneud 7 argymhelliad i'r Cyngor fel a nodir yn **Arddangosyn 2** isod,

### Arddangosyn 2: argymhellion

Rwy'n gwneud saith argymhelliad i gynorthwyo'r Cyngor i wella'i reolaeth ariannol a'i drefniadau llywodraethu.

| Argymhellion |                                                                                                                                                                                                                                                                         |
|--------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| A1           | Dylai'r Cyngor sefydlu gweithdrefnau priodol i sicrhau bod ei gyfrifon blyneddol yn cael eu paratoi a'u cymeradwyo erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn                                                                                                                        |
| A2           | Dylai'r Cyngor adolygu ei gofnodion cyfrifyddu, gan gynnwys ffurf y cyfrifon a chofnodion cyfrifyddu ategol, a sefydlu trefniadau i sicrhau bod y rhain yn cael eu cadw'n briodol                                                                                       |
| A3           | Dylai'r Cyngor adolygu ei weithdrefnau ar gyfer defnyddio mân arian a sicrhau mai dim ond ar gyfer trafodion ac iddynt werth isel y defnyddir mân arian                                                                                                                 |
| A4           | Dylai llofnodwyr sieciau sicrhau nad ydynt yn llofnodi sieciau a godwyd ar gyfer arian parod na sieciau sydd heb enw'r talai wedi'i gofnodi ar y siec ei hun                                                                                                            |
| A5           | Dylai'r Cyngor adolygu'r wybodaeth a gyhoeddir ar ei wefan a sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013                                                                                                              |
| A6           | Dylai'r Cyngor adolygu'r adroddiad archwilio mewnol a gafwyd ar gyfer blyneddodedd ariannol 2016-17 a 2017-18 a'r adroddiad a gafwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19 a sicrhau ei fod yn gweithredu'n briodol i gywiro'r diffygion a nodwyd gan yr archwilydd mewnol |

## Argymhellion

- A7 Dylai'r Cyngor sicrhau, mewn blynyddoedd yn y dyfodol, nad yw tystysgrif archwilio'r Archwilydd Cyffredinol yn cael ei chwblhau gan drydydd parti

## Camau gweithredu a gymerwyd gan y Cyngor

- 25 Ar 4 Mawrth 2022, darparodd y Cyngor ymateb i'm canfyddiadau a'm casgliadau. Mae'r Cyngor wedi dweud ei fod wedi gwella ei brosesau ac y bydd yn parhau â'r arfer o ddatblygu a gwella'n barhaus. Fe wnaeth y Cyngor fanylu yn ei ymateb ar y camau gweithredu y mae wedi'u cymryd ac rwyf wedi adlewyrchu'r rhain yng ngweddill yr adroddiad hwn. Nid wyf wedi gwneud unrhyw waith archwilio i gadarnhau haeriadau'r Cyngor ond byddaf yn ystyried y camau gweithredu a gymerwyd fel rhan o waith archwilio yn y dyfodol.

## Y camau nesaf

- 26 Yn unol ag adran 25 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 rhaid i'r Cyngor fynd ati yn awr i ystyried yr adroddiad hwn yn un o gyfarfodydd llawn y Cyngor o fewn un mis i ddyddiad yr adroddiad hwn.
- 27 O leiaf saith niwrnod cyn y cyfarfod, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn y gymuned a hwnnw'n nodi:
- amser a lleoliad y cyfarfod;
  - bod y cyfarfod yn cael ei gynnal i ystyried adroddiad er budd y cyhoedd; a
  - disgrifiad o gynnwys yr adroddiad.
- 28 Yn y cyfarfod, bydd angen i'r Cyngor benderfynu:
- a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau gweithredu;
  - a yw'r argymhellion yn yr adroddiad yn mynd i gael eu derbyn; a hefyd
  - pa gamau (os o gwbl) ddylid eu cymryd mewn ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.
- 29 Wedyn bydd angen i'r Cyngor baratoi ymateb ysgrifenedig a chytuno ar eiriad yr ymateb hwnnw gyda mi cyn cyhoeddi ei ymateb mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn y gymuned.

Ann-Marie Harkin

Cyfarwyddwr Gweithredol – Gwasanaethau Archwilio

Tros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Adroddiad manwl


## Mae'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'r gofynion statudol ar gyfer cymeradwyo'i gyfrifon blynyddol ers 2016-17

### Mae'r gofynion ar gyfer cymeradwyo a chyhoeddi cyfrifon y Cyngor wedi'u nodi mewn statud

- 30 O dan Adran 13 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004), rhaid i'r cyngor:
- baratoi ei gyfrifon bob blwyddyn hyd at 31 Mawrth neu ba bynnag ddyddiad y gall Gweinidogion Cymru ei gyfarwyddo'n gyffredinol neu mewn unrhyw achos arbennig; a
  - sicrhau bod ei gyfrifon yn cael eu harchwilio yn unol â Deddf 2004 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- 31 Mae Rheoliad 15 yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (Rheoliadau 2014) yn nodi'r amserlen ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r cyfrifon blynyddol:
- rhaid i Swyddog Cyllid Cyfrifol y cyngor baratoi'r cyfrifon ac ardystio'u bod yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r Cyngor yn briodol, neu'n cyflwyno sefyllfa ariannol ac incwm a gwariant y cyngor yn deg. Mae'r Swyddog Cyllid Cyfrifol yn darparu tystiolaeth o'r ardystiad hwn trwy lofnodi'r datganiadau cyfrifyddu a rhoi'r dyddiad arnynt. Darperir ar gyfer y llofnod a'r dyddiad mewn ffurflen flynyddol.
  - rhaid i aelodau'r cyngor, a hwythau'n cwrdd mewn cyfarfod llawn, ystyried y datganiadau cyfrifyddu ac, ar ôl eu hystyried, cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu i'w cyflwyno i'r archwilydd trwy benderfyniad gan y cyngor; ac yn dilyn eu cymeradwyo, sicrhau bod y person sy'n llywyddu yn y cyfarfod lle rhoddwyd y gymeradwyaeth honno'n llofnodi'r datganiadau cyfrifyddu ac yn rhoi'r dyddiad arnynt.
  - rhaid cwblhau'r camau gweithredu hyn erbyn 30 Mehefin yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- 32 Cyn gynted â phosibl wedi i'r Cyngor gymeradwyo'r ffurflen flynyddol, rhaid ei hanfon at yr archwilydd allanol ac mae'n rhaid iddo yntau yn ei dro gwblhau ei archwiliad yn ddim hwyrach nag erbyn 30 Medi. Caiff y broses hon ei chrynhai yn Arddangosyn 3. Daw'r arddangosyn o dudalen flaen y Ffurflen Flynyddol a ddarperir ar gyfer y Cyngor.

### Arddangosyn 3: y broses ar gyfer y cyfrifon ac archwilio

Mae'r trefniadau ar gyfer y cyfrifon ac archwilio'n dilyn y broses a nodir isod:



Ffynhonnell: Ffurflen flynyddol

- 33 Rhaid i'r cyngor hefyd gyhoeddi ei gyfrifon ynghyd ag unrhyw dystysgrif neu adroddiad archwilio erbyn 30 Medi, neu os yw'n eu cyhoeddi cyn cwblhau'r archwiliad a bod dim barn o'r fath wedi cael ei rhoi, rhaid iddo gynnwys datganiad ac esboniad sy'n nodi bod yr archwilydd, ar y dyddiad cyhoeddi, heb roi unrhyw farn.
- 34 Ceir rhagor o fanylion am y gofynion ar gyfer paratoi, cymeradwyo ac archwilio cyfrifon Cyngorau Tref a Chymuned yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a ategir gan gyhoeddiad Un Llais Cymru/Cymdeithas Clercod Cyngorau Lleol, 'Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Cyngorau Lleol yng Nghymru – Canllaw ar gyfer Ymarferwyr' (y Canllaw ar gyfer Ymarferwyr).

### Rhwng 2016-17 a 2020-21, methodd y Cyngor â pharatoi a chymeradwyo'i gyfrifon blynnyddol yn unol â'r Rheoliadau

- 35 Fe gymeradwyodd y Cyngor ei gyfrifon ar gyfer 2015-16 ar 13 Mehefin 2016, yn unol â'r Rheoliadau. Fodd bynnag, am y pum mlynedd ddiwethaf mae'r Cyngor wedi methu â chyflawni ei ddyletswydd statudol i baratoi a chymeradwyo'r cyfrifon fel sy'n ofynnol yn ôl Deddf 2004 a Rheoliadau 2014. Mae Arddangosyn 4 yn nodi'r dyddiadau pan ddarparodd y Swyddog Cyllid Cyfrifol a'r Cyngor y gymeradwyaeth angenrheidiol i'r cyfrifon blynnyddol.

#### Arddangosyn 4: cymeradwyo'r cyfrifon blynyddol

Nid yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r amserlen statudol ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r cyfrifon ar gyfer y blynyddoedd rhwng 2016-17 a 2018-19 ac nid yw'r cyfrifon ar gyfer 2018-19 a 2019-20 wedi cael eu cyflwyno i'w harchwilio eto.

| Blwyddyn ariannol | Dyddiad ardystio gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol | Dyddiad cymeradwyo gan y Cyngor | Dyddiad llofnodi gan y Cadeirydd |
|-------------------|------------------------------------------------|---------------------------------|----------------------------------|
| 2016-17           | 18/09/2018                                     | 17/09/2018                      | 18/09/2018                       |
| 2017-18           | 18/09/2018                                     | 17/09/2018                      | 18/09/2018                       |
| 2018-19           | 16/02/2022                                     | 28/02/2022                      | 28/02/2022                       |
| 2019-20           | 16/02/2022                                     | 28/02/2022                      | 28/02/2022                       |
| 2020-21           | 16/02/2022                                     | 28/02/2022                      | 28/02/2022                       |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

- 36 Mae fy adolygiad i o gofnodion y Cyngor yn dangos na wnaeth y Clerc ddarparu'r ardystiad sy'n ofynnol yn ôl y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) tan ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo'r cyfrifon. Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol rhoi'r ardystiad hwn cyn bod y Cyngor yn cymeradwyo'r cyfrifon.
- 37 Ni ddarparwyd unrhyw esboniad pam na wnaeth y Cadeirydd lofnodi'r ffurflenni blynyddol ar gyfer 2016-17 a 2017-18 tan y diwrnod ar ôl y cyfarfod y cymeradwywyd y ffurflenni blynyddol ynddo.
- 38 Mae cofnodion un o gyfarfodydd y cyngor a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2019 yn dynodi bod y Cyngor wedi cytuno ar ddatganiad cyfrifyddu a datganiad llywodraethu blynyddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19. Fodd bynnag, mae'r cofnodion hefyd yn datgan "Gofynnodd y Maer am gwblhau'r ddwy ddogfen ac yna fe wnaiff hi eu llofnodi". Er gwaethaf y gymeradwyaeth a gofnodwyd yng

nghofnodion y Cyngor, ni ddarparwyd ffurflen flynyddol 2018-19 a oedd yn ymgorffori'r cyfrifon i mi ei harchwilio tan fis Ebrill 2022.

- 39 Yn ogystal â chyfrifon 2018-19, ni chefais gyfrifon 2019-20 na chyfrifon 2020-21 i'w harchwilio yn unol â'r amserlen a nodir yn Rheoliadau 2014. Dylai'r cyfrifon hyn fod wedi cael eu cymeradwyo ym mis Mehefin 2020 ac ym mis Mehefin 2021 yn y drefn honno. Canfu fy archwiliad o gofnodion y Cyngor a gwybodaeth a ddarparwyd gan y Cyngor ar 4 Mawrth 2022 na chafodd y cyfrifon hyn eu cymeradwyo tan Gyfarfod Cyffredinol Eithriadol a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2022. Ni ddarparwyd y Ffurflenni Blynnyddol ar fy nghyfer i tan 11 Ebrill 2022.
- 40 Er gwaethaf yr anawsterau a achoswyd gan COVID-19, mae hyn yn fethiant sylweddol a pharhaus mewn rheolaeth ariannol ac atebolrwydd.
- 41 Yn ei ymateb i'm canfyddiadau a chasgliadau dros dro, mae'r Cyngor yn dweud ei fod wedi cael paratoi cyfrifon ariannol gan gyfrifwyr annibynnol ar gyfer y tair blynedd sy'n weddill. Nododd y Cyngor hefyd, pan gafodd ei benodi, na chafodd y Clerc cyfredol unrhyw fath o broses i drosglwyddo'r awenau gan ddeiliad blaenorol y swydd a'i fod wedi profi anawsterau o ganlyniad i gau swyddfa'r Cyngor ym mis Mawrth 2020.

## Mae cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2017-18 wedi cael eu diwygio cyn eu cyflwyno i gael eu harchwilio ac felly mae'n aneglur a gafodd y newidiadau eu gwneud cyn ynteu ar ôl i'r Cadeirydd lofnodi'r ffurflenni blynnyddol

- 42 Unwaith y mae'r cyfrifon wedi cael eu llofnodi gan y Cadeirydd, ni ddylent gael eu diwygio cyn eu cyflwyno i'r archwilydd.
- 43 Fodd bynnag, mae'r cofnodion canlynol yng nghyfrifon 2017-18 a ddarparwyd i'w harchwilio wedi cael eu diwygio:
- Cafodd costau staff eu newid o £36,373 i £42,502
  - Cafodd taliadau eraill eu diwygio o £105,085 i £97,970
  - Cafodd balansau a gariwyd ymlaen eu newid o £149,095 i £150,031
- 44 Nid yw'n glir a wnaed y newidiadau cyn ynteu ar ôl i'r Cadeirydd lofnodi'r ffurflen flynyddol. Felly, ni allaf ddod i gasgliad pa un a yw'r Cyngor yn ymwybodol o'r newidiadau a wnaed i'r cyfrifon ai peidio.

**Mae diffygion sylweddol yng nghofnodion cyfrifyddu'r Cyngor yn golygu nad wyf yn gallu dod i gasgliad pa un a yw'r cyfrifon ar gyfer 2016-17 a 2017-18 yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r Cyngor yn briodol**

**Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor a'i Swyddog Cyllid Cyfrifol gadw cofnodion cyfrifyddu priodol.**

- 45 Mae Rheoliad 6 yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Cyllid Cyfrifol, sef y Clerc yn achos y Cyngor, benderfynu ar ran y corff, ar ôl ystyried arferion priodol, ei gofnodion cyfrifyddu, gan gynnwys ffurf y cyfrifon a'r cofnodion cyfrifyddu ategol, a'i systemau rheoli cyfrifyddu. Rhaid i'r Swyddog Cyllid Cyfrifol sicrhau bod y systemau cyfrifyddu'n cael eu diweddarau a'u cynnal yn unol ag arferion priodol.
- 46 Caiff arferion priodol eu nodi yng nghyhoeddiad Un Llais Cymru/Cymdeithas Clercod Cyngorau Lleol, Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Cyngorau Lleol yng Nghymru: Canllaw ar gyfer Ymarferwyr. Mae'r arferion priodol hyn yn mynnu y dylai'r Cyngor gadw llyfr arian neu ddogfennaeth gyfatebol er mwyn cofnodi trafodion a chadw dogfennaeth wreiddiol i ddarparu tystiolaeth i gadarnhau'r trafodion a gofnodwyd yn y llyfr arian.
- 47 Rhwng 2016-17 a 2018-19, cadwodd y Cyngor ei lyfr arian ar ffurf llyfr gwaith electronig yn Excel.

**Mae fy archwiliad wedi canfod nifer o wendidau a hepgoriadau sylweddol yng nghofnodion y Cyngor.**

- 48 Yn ystod archwiliadau 2016-17 a 2017-18, ceisiodd fy nhîm archwilio gadarnhau bod y cyfrifon blynyddol yn adlewyrchu dadansoddiad sylfaenol y llyfr arian yn briodol. Canfu'r tîm archwilio:
- nad oedd y cyfrifon ar gyfer 2016-17 yn gyson â'r cofnodion sylfaenol; ac
  - nad oedd y Cyngor yn gallu darparu esboniadau ar gyfer yr anghysonderau.
- 49 Yn dilyn fy archwiliad o adroddiad archwilio mewnol y Cyngor ar gyfer 2016-17 a 2017-18, mae'n amlwg i mi bod y Cyngor wedi methu â chadw cofnodion cyfrifyddu priodol. Mae'r archwilydd mewnol yn amlygu'r gwendidau canlynol:
- mae'r llyfr arian ar ffurf taenlen Excel ar gyfer 2016-17 yn cynnwys un cofnod yn unig ar gyfer cyfanswm y taliadau a wnaed bob mis.
  - er ei fod wedi ei gofnodi yn y datganiad cyfrifyddu blynyddol, nid yw llog a dderbyniwyd wedi ei gofnodi yn llyfr arian y Cyngor.

- mae trafodion sy'n gysylltiedig â chyfrif yr Eisteddfod wedi cael eu cynnwys yn y llyfr arian ar gyfer 2016-17 a 2017-18 ond nid yw'r balansau diwedd blwyddyn wedi cael eu cynnwys yn y balansau diwedd blwyddyn yr adroddwyd arnynt yn y cyfrifon.
  - nid yw trafodion a balansau diwedd blwyddyn ar gyfer cyfrif y Cyngor leuenctid wedi cael eu cynnwys yn y llyfr arian a'r balansau diwedd blwyddyn yn y cyfrifon.
  - nid yw sieciau heb eu cyflwyno wedi cael eu cynnwys yn y llyfrau arian ar gyfer 2016-17 a 2017-18.
  - nid yw'r dogfennau ategol ar gyfer gwariant a ysgwyddwyd yn 2016-17 a 2017-18 wedi cael eu cadw gan y Cyngor.
  - nid yw ad-daliad TAW yn 2016-17 ar gyfer TAW a dalwyd yn 2015-16 yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r TAW a dalwyd yn 2015-16 fel y'i cofnodwyd yn llyfr arian y Cyngor.
- 50 Ar gyfer 2018-19, paratôdd y Clerc lyfrau arian ar ffurf llyfr gwaith cynhwysfawr yn Excel a oedd yn ymgorffori'r holl gyfrifon banc a oedd yn cael eu dal gan y Cyngor. Canfu'r archwilydd mewnol nifer fach o gofnodion dyblyg ac fe drefnodd fod y rhain yn cael eu cywiro cyn bod fy archwiliad yn dechrau.
- 51 Mae'r Cyngor wedi dweud ei fod wrthi ar hyn o bryd yn mudo i becyn meddalwedd cyfrifon newydd a fydd yn ei gynorthwyo i baratoi ei gyfrifon blyneddol ar amser.

## **Nid oes gan y Cyngor gofnodion digonol i ategu gwariant a wnaed o falansau arian parod**

- 52 Yn ystod yr archwiliad, tynnodd y Clerc interim ar y pryd sylw fy nhîm archwilio at siec am £5,000 a godwyd ar gyfer arian parod ym mis Rhagfyr 2018. Mae'r cofnod yn llyfr arian y Cyngor yn cyfeirio at hyn fel 'mân arian'. Dywedodd y Clerc interim wrth fy nhîm fod £420 yn dal i fod yn swyddfa'r Cyngor a bod £300 o hwn wedi cael ei dalu i mewn i'r banc ym mis Chwefror 2019.
- 53 Mae trafodion mewn mân arian yn darparu cyfleustra ar gyfer trafodion bach y mae defnyddio siec yn afresymol neu'n annerbyniol ar eu cyfer. Mae enghreifftiau o drafodion y defnyddir mân arian yn fynych ar eu cyfer yn cynnwys:
- cyflenwadau swyddfa e.e. deunydd ysgrifennu a nwyddau traul eraill; ac
  - ad-dalu treuliau sy'n gysylltiedig â gwaith i gyflogai.
- 54 Mae defnyddio mân arian yn gallu osgoi rheolaethau mewnol. Mae hi'n bwysig felly bod trafodion mewn mân arian yn cael eu cofnodi'n llawn ac yn cael eu cysoni o bryd i'w gilydd, gyda thrafodion yn cael eu cofnodi ar ddatganiadau ariannol y Cyngor hefyd. Er bod defnyddio mân arian yn cynnig manteision, ar ffurf cyfleustra a rhwyddineb defnydd, mae ei anfanteision yn cynnwys y posibilrwydd bod yr arian yn cael ei ddwyn neu ei gamddefnyddio.
- 55 Ymddengys fod y siec am £5,000 wedi cael ei chodi i ad-dalu treuliau i aelodau a ysgwyddwyd ganddynt ar ran y Cyngor. Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion gan

y Clerc interim ar y pryd, nid oedd modd darparu dogfennaeth ategol ar gyfer y £4,580 a dalwyd o'r arian parod a godwyd.

- 56 Canfuom hefyd gofnodion yn llyfr arian 2017-18 sy'n nodi £2,700 a dynnwyd allan o'r cyfrif cyfredol mewn arian parod. Fodd bynnag, nid oedd gan y Cyngor unrhyw gofnodion mân arian i nodi sut y defnyddiwyd yr arian yma.
- 57 Tynnwyd fy sylw hefyd at swm o £983 mewn arian parod y daeth y clerc interim o hyd iddo ymhlith cofnodion eraill a adferwyd gan y clerc blaenorol a Chadeirydd blaenorol y Cyngor. Yn dilyn penodi'r Clerc interim, roedd hi wedi ceisio cael dogfennaeth gan ei rhagflaenydd a hefyd Cadeirydd y Cyngor yr ymddengys ei fod wedi ysgwyddo rôl weinyddol yn dilyn ymddiswyddiad y clerc blaenorol. Nid oedd y cofnodion a drosglwyddwyd i'r Clerc interim yn y pen draw wedi'u didoli na'u ffeilio'n ddigonol ac roeddent yn cynnwys amlen â £983 mewn arian parod ynddi. Banciwyd yr arian yma ar 15 Chwefror 2019.
- 58 Ni ddarparwyd esboniad i ddynodi o ble y daeth yr arian yma a pha un ai dyma'r swm a oedd yn weddill o'r £2,700 ar ôl cwrdd â gwariant a ysgwyddwyd gan y Clerc blaenorol a/neu'r Cadeirydd blaenorol. O ystyried y diffyg cofnodion a'r amser a aeth heibio, mae'n annhebygol y bydd y Cyngor yn gallu gwirio ar gyfer beth ddefnyddiwyd y symiau arian parod hyn.
- 59 Mae'r Cyngor wedi dweud, yn dilyn penodi'r Clerc cyfredol, bod mân arian yn cael ei ddefnyddio ar gyfer trafodion sy'n fach o ran eu gwerth.

## **Mae'r diffyg cofnodion sydd ar gael a'r ansicrwydd ynghylch y gwariant a ysgwyddwyd gan y Cyngor yn golygu nad wyf yn gallu dod i gasgliad pa un a yw'r cyfrifon ar gyfer y blynyddoedd rhwng 2016-17 a 2018-19 yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r Cyngor yn briodol ai peidio**

- 60 Mae'r diffygion a nodir uchod yn golygu bod bylchau sylweddol yng nghofnodion cyfrifyddu'r Cyngor. Ni allaf ddod i gasgliad pa un a yw cyfrifon y Cyngor ar gyfer y blynyddoedd rhwng 2016-17 a 2018-19 yn gofnod cyflawn a chywir o dderbyniadau a thaliadau'r Cyngor. Byddaf felly'n ymwrthod rhag rhoi barn pa un a yw'r cyfrifon hyn yn ddarlun teg o dderbyniadau a thaliadau'r Cyngor.

## Er bod gwefan gan y Cyngor, nid yw'n cyhoeddi'r holl ddogfennau y mae'n ofynnol iddo'u cyhoeddi'n electronig

### Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi gwybodaeth benodol yn electronig

- 61 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013) yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor lleol drefnu bod eu manylion cyswllt a manylion eu haelodau, a chofnodion eu trafodion ar gael ar y rhwyngwyl. Mae Deddf 2013 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor gyhoeddi eu cofrestr o fuddiannau'r aelodau, hysbysiadau cyhoeddus a chyfrifon archwiliedig yn electronig.
- 62 Mae'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2013 yn gwella atebolrwydd cynghorau lleol i'w hetholaethau. Yn 2015, cafodd y Cyngor £500 mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru i'w gynorthwyo i ddatblygu gwefan.

### Dim ond swm cyfyngedig o'r wybodaeth y mae'n ofynnol i'r Cyngor ei chyhoeddi'n electronig y mae gwefan y Cyngor yn ei gynnwys

- 63 Canfu fy archwiliad, er ei fod wedi sefydlu gwefan, nad yw'r Cyngor wedi cyhoeddi'r wybodaeth y mae'n ofynnol iddo'i chyhoeddi'n electronig.
- 64 Er bod cofnodion cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu cyhoeddi ar y wefan, mewn nifer o achosion, cofnodion drafft yw'r rhain ac nid y cofnodion terfynol a gymeradwywyd. O ran y sefyllfa ar 11 Mawrth 2022, dim ond ar gyfer cyfarfodydd hyd at a chan gynnwys 25 Hydref 21 yr oedd cofnodion wedi'u cyhoeddi. Roedd cofnodion ar gyfer cyfarfodydd hyd at a chan gynnwys 19 Mai 2022 wedi cael eu cyhoeddi erbyn 21 Hydref 2022. Ar yr adeg hon, nid oedd unrhyw gofnodion wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng 13 Mehefin a 29 Medi 2022. Ar ben hynny, nid yw'r wefan yn cynnwys copi o gofrestr y Cyngor o fuddiannau'r aelodau, hysbysiadau o archwiliadau na chyfrifon archwiliedig.
- 65 Mae'r Cyngor wedi dweud ei fod wrthi'n datblygu gwefan newydd.

Er ei fod yn ymwybodol fy mod yn ystyried cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd, mae'r Cyngor wedi methu ag ystyried fy nghanfyddiadau archwilio ac wedi diystyru fy nghyfathrebiadau ar ddau achlysur ar wahân

**Ar 30 Medi 2021, fe gyflwynais ddogfen i'r Cyngor yn nodi fy nghanfyddiadau archwilio ac yn gofyn am sylwadau ar ei chywirdeb ffeithiol ond methodd y Cyngor â chydabod ei derbyn nac ystyried y canfyddiadau ynddi**

- 66 Mae Adran 22 Deddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi ystyried a ddylwn, er budd y cyhoedd, baratoi adroddiad ar unrhyw fater sy'n dod i'm sylw yn ystod yr archwiliad, er mwyn iddo gael ei ystyried gan y corff neu ei ddwyn i sylw'r cyhoedd.
- 67 Pan wyf yn canfod methiannau sylweddol yn ystod fy archwiliad, fy arfer safonol yw rhoi cyfle i gynghorau wneud sylwadau ar fy nghanfyddiadau archwilio. Rwyf yn gwneud hyn trwy ddarparu dogfen ar gyfer y Cyngor sy'n crynhoi fy nghanfyddiadau archwilio ac a baratoir i'm cynorthwyo i ystyried pa un a ddylwn gyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd ai peidio. Cyfeiriai at y dogfennau hyn fel 'dogfennau ystyriaeth'.
- 68 Ar 30 Medi 2021, anfonais gopi o ddogfen ystyriaeth o'r fath at y Clerc, Mr Morgan. Gwahoddais sylwadau gan y Cyngor fel corff corfforedig a dywedais y gallai aelodau unigol ddarparu sylwadau unigol hefyd os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Eglurais y dylai'r ddogfen gael ei hystyried yn un o gyfarfodydd llawn y Cyngor a gynullwyd yn briodol, ac nid gan weithgor aelodau.
- 69 Ni chefais unrhyw gydnabyddiaeth gan Mr Duncan i ddweud ei fod wedi cael y ddogfen nac unrhyw sylwadau gan y Cyngor nac aelodau unigol. Nid wyf yn gwybod a wnaeth Mr Duncan ddosbarthu copïau o'r ddogfen i aelodau ai peidio. Rwyf wedi archwilio copïau o agendau a chofnodion cyfarfodydd y Cyngor a gyhoeddwyd ar ei wefan ac nid wyf wedi gweld unrhyw gyfeiriad at gael na thrafod y ddogfen ystyriaeth.

**Ar 6 Ionawr 2022, anfonais gopi pellach o'r ddogfen ystyriaeth at y Clerc, Mr Morgan, ac anfonais gopi hefyd at aelodau unigol ond eto ni wnaeth y Cyngor, gan gynnwys ei aelodau fel unigolion, gydnabod nac ystyried ei chynnwys**

- 70 Ar 6 Ionawr 2022 fe gysylltodd y Cyngh. Emyr John â'm tîm archwilio yn gofyn am gadarnhad o 'sefyllfa archwilio swyddogol Cyngor Tref Rhydaman ar gyfer y

blynyddoedd diwethaf'. Amlygodd y Cyngor John ei fod yn cael 'gwybodaeth gyfyngedig iawn gan y Clerc'.

- 71 A hwythau wedi cadarnhau nad oedd y Cyngor wedi ystyried y ddogfen a anfonwyd ym mis Medi 2021, fe ddarparodd fy nhîm archwilio gopi pellach o'r ddogfen ystyriaeth ac egluro mai ein bwriad ni oedd cyflwyno adroddiad terfynol tuag at ddiwedd mis Chwefror 2022. Darparwyd yr adroddiad ar gyfer y Clerc (Mr Morgan) a'r cynghorwyr canlynol:

- Colin Evans
- Deian Harries
- Emyr John
- Geraint Jones
- Gruff Harrison
- Gwenllïan Harries
- Helen Rees
- Julia Rees
- Llio Davies
- Lyn Broderick
- Rhodri Jones
- Rhys Fisher
- Sam Jones
- Stefan Butler
- Stephen Davies

- 72 Rwyf wedi archwilio gwefan y Cyngor ac rwy'n nodi na chafodd y ddogfen ei chynnwys i gael ei thrafod ar agenda cyfarfod y Cyngor a oedd i'w gynnal ar 17 Ionawr 2022. Fodd bynnag, cefais sylwadau wedi hynny oddi wrth y cynghorwyr Emyr John a Stephen Davies.

- 73 Fe wnaeth y Cyngor ystyried y ddogfen yn y pen draw mewn Cyfarfod Cyffredinol Eithriadol a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2022. Dim ond yn dilyn cyfathrebiad pellach oddi wrth fy nhîm archwilio ar 11 Chwefror 2022, yn egluro fy mod yn bwriadu cyflwyno fy adroddiad terfynol tuag at ddiwedd mis Chwefror, y cynullwyd y cyfarfod hwn. Gofynnodd y Cyngor am estyniad ar y terfyn amser ar gyfer sylwadau.

- 74 Er ei bod yn amlwg i mi bod Mr Morgan, ym mis Medi 2021, wedi methu â sicrhau ei fod yn dwyn y diffygion difrifol a ganfuwyd gan fy archwiliad i sylw'r Cyngor, mae hefyd yn glir bod y cynghorwyr hwythau, o fis Ionawr 2021, wedi methu â sicrhau bod y materion a godwyd yn cael eu hystyried yn briodol gan y Cyngor.

# Atodiad 1

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                       | 2016-17 | 2017-18 |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------|---------|
| 1. Rydym wedi sefydlu trefniadau ar gyfer: <ul style="list-style-type: none"><li>rheolaeth ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a</li><li>pharatoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu.</li></ul>                                                                                              | Naddo   | Naddo   |
| 2. Rydym wedi cynnal system ddigonol o reolaeth fewnol, gan gynnwys mesurau sydd wedi'u bwriadu i atal a chanfod twyll a llygredigaeth, ac wedi adolygu ei heffeithiolrwydd.                                                                                                                          | Naddo   | Naddo   |
| 3. Rydym wedi cymryd yr holl gamau rhesymol i'n sicrhau ein hunain nad oes unrhyw faterion diffyg cydymffurfio gwirioneddol na phosibl â chyfreithiau, rheoliadau a chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Cyngor i gynnal ei fusnes neu ar ei sefyllfa ariannol.           | Naddo   | Naddo   |
| 4. Rydym wedi darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.                                                                                                                                                                     | Naddo   | Naddo   |
| 5. Rydym wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle'r oedd yn ofynnol.                                                                                            | Naddo   | Naddo   |
| 6. Rydym wedi cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol mewn perthynas â'r cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheolaeth trwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol.                                                                                             | Naddo   | Naddo   |
| 7. Rydym wedi ystyried a yw unrhyw ymglyfreithiad, rhwymedigaethau neu ymrwymïadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl diwedd y flwyddyn, yn cael effaith ariannol ar y Cyngor a, lle y bo'n briodol, rydym wedi'u cynnwys ar y datganiadau cyfrifyddu. | Naddo   | Naddo   |
| 8. Rydym wedi cymryd camau gweithredu priodol ar yr holl faterion a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol.                                                                                                                                                               | Naddo   | Naddo   |





Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.